

PWYLLGOR	<b>PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU</b>
DYDDIAD	<b>15 HYDREF 2020</b>
TEITL	<b>BLAEN RAGLEN Y PWYLLGOR</b>
PWRPAS YR ADRODDIAD	<b>CYFLWYNO AMLINELLIAD O RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR AM 2020/21</b>
AWDUR	<b>DEWI MORGAN, PENNAETH CYNORTHWYOL (REFENIW A RISG)</b>
GWEITHREDIAD	<b>ER GWYBODAETH</b>

---

## **1. CYFLWYNIAD**

- 1.1 Pwrpas yr adroddiad yma yw rhoi amlinelliad o raglen waith y Pwyllgor am y flwyddyn i ddod, hyd at Gorffennaf 2021, sydd wedi ei gynnwys yn yr Atodiad.
- 1.2 Mae'r rhaglen waith atodol wedi'i gytuno gyda Chadeirydd ac Is-Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu mewn cyfarfod ar 17 Medi 2020 gyda'r Aelod Cabinet Cyllid, y Prif Weithredwr, y Pennaeth Cyllid a'r Ymgynghorydd Craffu.
- 1.3 Cynhaliwyd cyfarfod cyffelyb rhwng y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd ac Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol, y Prif Weithredwr, Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol, Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol a'r Ymgynghorydd Craffu ar 23 Medi 2020. Ni adnabuwyd unrhyw eitem ychwanegol i'w gynnwys ar y flaen raglen.
- 1.4 Fodd bynnag, mae'r eitem hon yn gyfle i holl aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ystyried yr eitemau sydd i'w trafod yn ystod y cyfnod yma, er mwyn cyflawni rôl y Pwyllgor o fewn Fframwaith Lywodraethu'r Cyngor, a rhoi cyfle i'r aelodau baratoi fel bo'r angen.
- 1.5 Wrth gwrs, gall union ffurf y rhaglenni pwyllgor fod yn wahanol erbyn y cyfarfodydd, yn ddibynnol ar amgylchiadau ar y pryd. Gall hyn gynnwys materion sydd wedi codi mewn gwaith archwilio, yr angen i ystyried materion penodol yn y maes llywodraethu ehangach, neu faterion yn codi o rôl craffu'r Pwyllgor mewn perthynas â materion corfforaethol.

## **2. ARGYMHELLIAD**

- 2.1 Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ystyried cynnwys y blaen raglen atodol, holi'r swyddogion am yr eitemau fel bo'r angen, a chynnig sylwadau.